

Cefn Gwlad

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2010

Taith y Flwyddyn Gyntaf i Eryri

Ymunodd myfyrwyr blwyddyn gyntaf Hamdden a Thwristiaeth Cefn Gwlad â myfyrwyr twristiaeth eraill ar daith astudio i Eryri.

Hostel Ieuenctid y Rhaeadr Ewynnol ger Betws y Coed oedd y man aros drwy gydol y daith dridiau. Arhosiad cyntaf y daith oedd tref hanesyddol Caernarfon, lle bu'r myfyrwyr yn dadansoddi rôl twristiaeth mewn adfywiad trefol. Hefyd, bu'r grŵp yn edrych o gwmpas y castell enwog a'r dref gan archwilio'r datblygiadau twristiaidd sydd i'w gweld yno. Aeth yr ail ddiwrnod â'r myfyrwyr i Flaenau Ffestiniog, i ymweld â Chwarel ac Amgueddfa Lechi Llechwedd lle cawsant gyfle i fynd dan ddaear i ddarganfod sut fywyd oedd gan y chwarelwr. Yn nes ymlaen, bu'r myfyrwyr yn gwrandao ar sgwrs am rôl twristiaeth ym mhroses adfywio'r dref. Profodd Blaenau Ffestiniog yn astudiaeth achos hynod o ddiddorol gan i'r lle hwn gael ei eithrio yn wreiddiol o ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, penderfyniad sy'n awr yn y broses o gael ei adolygu ac o bosibl ei wrthdroi. Gwawriodd y diwrnod olaf yn sych a braf ar gyfer ymweliad y myfyrwyr â phentref 'hud a lledrith' Eidalaid Portmeirion cyn iddynt fynd yn eu blaenau i ymchwilio i dwristiaeth glan môr traddodiadol tref Y Bermo.



*Y Myfyrwyr yn mynd dan ddaear yn
Chwarel Lechi Llechwedd*

IBERS

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

Rhestr Cyrsiau

BSc

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad

Gradd Sylfaen

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad

Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad

Os gennych chi ddiddordeb?

Ffoniwch **Fay Hollick** ar **01970 621622**



Chris yn warden Ynys Sgomer

Llongyfarchiadau i un o'n cyn-fyfyrwyr, Chris Taylor, sy'n ddiweddar wedi cael y swydd ffantastig o fod yn warden Ynys Sgomer yn Sir Benfro.

Mae Sgomer yn warchodfa natur o bwys rhyngwladol sy'n eiddo i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac yn cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru. Yn ogystal â thua 13,000 o balod, mae'n gartref i tua 120,000 pâr o Adar Drycin Manaw, miloedd ar filoedd o wylanod coesddu, gwylogod a llursod, sy'n ei gwneud yn un o gytrefi pwysicaf adar y môr ym Mhrydain. Pan gafodd y swydd,

dywedodd Chris, "Mae'n ffrind gallu byw mewn lleoliad mor rhyfeddol a chael y cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar safle mor anhygoel o bwysig".

Astudiodd Chris y cwrs HND Rheoli Cefn Gwlad cyn symud ymlaen i wneud gradd BSc yn yr un maes. Yn dilyn hyn, astudiodd yma yn Aberystwyth am MSc mewn Asesu Effaith Amgylcheddol.



Jasper gyda phentrefwyr yn Ynysoedd Solomon

Jasper yn cyhoeddi ymchwil coedwig law

Ar gyfer ei draethawd gwaith maes, treuliodd Jasper Kenter, myfyriwr BSc Cadwraeth Cefn Gwlad, ddeng wythnos yn Ynysoedd Solomon yn ymchwilio i werthoedd amgylcheddol.

Ar yr ynysoedd, sydd i'r

gogledd ddwyrain o Gini Newydd, ceir nifer anarferol o uchel o rywogaethau endemig, yn ogystal ag ieithoedd a diwylliannau brodorol. I ddeall gwerth ecosystemau yn Kahua, ardal anghysbell o'r Ynysoedd, datblygodd Jasper ddull newydd o ymchwil gyfranogol.

"Fy rôl i oedd hwyluso proses hunan-ddealltwriaeth o broblemau ecolegol-gymdeithasol. Mae pobl leol yn medru dadansoddi'u realaeth hwy eu hunain yn dda iawn. Nid diben ymchwil yw crynhoi data yn unig ond yn hytrach anelu at fod o fudd i gymunedau lleol hyd y gellir. Roedd y cyfan yn gyffrous iawn gan nad yw'r ymdriniaeth hon wedi'i defnyddio o'r blaen wrth werthuso'r amgylchedd, a doeddwn i ddim yn gwybod a fyddai'n gweithio. Roedd yn waith caled hefyd, oherwydd y gwahaniaethau diwylliannol a'r amgylchedd trofannol."

Mae Jasper wedi cyflwyno papur academiaidd yn seiliedig ar ei draethawd ymchwil i'r cyfnodolyn dylanwadol iawn *Global Environmental Change* ac mae'n cydweithio ar ail bapur gyda'r darlithydd Economeg Amgylcheddol Mike Christie. Cyllidwyd Jasper yn rhannol gan Glwb Lles a Dathlu Coleg Amaethyddol Cymru, sy'n dyfarnu un neu fwy o wobrau teithio blynyddol o'r elw a wneir ym mar te IBERS ar gampws Llanbadarn. Derbyniodd y wobwr eleni eto i fynychu cynhadledd economeg ecolegol yn Yr Almaen. Y mae bellach wedi cwblhau ei BSc yn Aberystwyth, a bydd yn cychwyn ar gwr PhD y Mhrifysgol Aberdeen ym maes gwasanaethau ecosystemau.

Myfyrwyr yn helpu i agor ein cefn gwlad

Yn ddiweddar, bu myfyrwyr HND a Gradd Sylfaen yn gweithio ar agor llwybrau cyhoeddus sy'n cysylltu pentref Pennant â Llwybr Arfordir Ceredigion.

Mae hyn yn llwybr llinol o ryw dair milltir sy'n rhoi golygfeydd godidog o'r arfordir ac ucheldiroedd Eryri yn enwedig. Mae agor y llwybr cerdded yn golygu y gall trigolion Pennant yn awr gerdded ar hyd llwybr cylchol byr, ac o bosibl un arall a fydd ychydig yn hwy a allai yn ei dro gysylltu â Llwybr Cerdded Dylan Thomas sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Crewyd ymdeimlad o 'Hiraeth' trwy ailadeiladu hen gamfeydd cerrig a oedd wedi mynd rhwng y cŵn a'r brain. Cafodd gweddillion hen bont droed garreg eu codi o'r pridd a'u defnyddio i adeiladu grisiau ar bont droed bren newydd. Adeiladwyd y bont yn y gweithdy a'i chludo i'r safle gyda help y tîrfeddiannwr. Ar bob pen i'r llwybr, gosodwyd gatiau mochyn hunan-gau, o bren castanwydden felys, a wnaed â llaw gan y myfyrwyr eu hunain. Yn ogystal â hyn i gyd, gwnaethpwyd llawer o waith ffensio a chlirio, newidiwyd gatiau cerddwyr a gatiau caeau am rai newydd ac atgyweiriwyd waliau clawdd.

Roedd y prosiect yn bosibl trwy gymorth swyddogion adran Arfordir a Chefn Gwlad, Cyngor Sir Ceredigion. Rhaid yw diolch i'r holl dirfeddiannwyr dan sylw am eu cydweithrediad, eu hamynedd a'u croeso.



Wythnos Astudio Blwyddyn 1 yn Sir Amwythig

Cynhaliwyd cwrs maes preswyl y flwyddyn gyntaf i Sir Amwythig yn ystod mis Mai. Cafwyd ymweliadau â sawl man gwahanol, a oedd yn integreiddio deunydd a ddysgwyd yn yr ystafell ddosbarth ym modiwlau'r flwyddyn gyntaf. Yn anad dim, ysgogodd yr ymweliadau drafodaethau ar y newid parhaus yn natur ein cefn gwlad. Mae'r daith hefyd yn achlysur cymdeithasol plaserus i ddirwyn y flwyddyn i ben yn arbennig i'r myfyrwyr hynny sydd ar fin cychwyn ar eu lleoliadau gwaith am flwyddyn.



Myfyrwyr yn ennill Gwobrau Teithio

Yn ddiweddar, llwyddodd tri o fyfyrwyr IBERS i ennill gwobrau teithio o'r Clwb Lles a Dathlu (Coleg Amaethyddol Cymru). Mae'r gwobrau hyn, sy'n gyfanswm o hyd at £500, yn cael eu cyflwyno i fyfyrwyr sy'n awyddus i wella eu cyfleoedd gyrfa trwy deithio i gynadleddau neu wneud ymchwil ar gyfer eu traethawd neu brosiect. Mae'r Clwb yn rhedeg y bar te yn IBERS, Campws Llanbadarn ar gyfer staff a myfyrwyr yn ystod y flwyddyn, a defnyddir unrhyw elw a wneir tuag at y gwobrau teithio.

Ar gyfer ei draethawd blwyddyn olaf, bydd Jonas Krause-Heiber (2il flwyddyn BSc Rheoli Cefn Gwlad) yn gwneud arolwg defnyddwyr ar 'lwybrau pellter maith' yn ystod yr haf. Mae Jasper Kenter (blwyddyn olaf BSc Rheoli Cefn Gwlad) yn mynd i gynhadledd fyd-eang Cymdeithas Ryngwladol Economeg Ecolegol yn Oldenburg a Bremen yn yr Almaen, ar werthuso gwasanaethau ecosystemau ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, fel paratoad ar gyfer cychwyn ar ei PhD ar y pwnc ym Mhrifysgol Aberdeen. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor a Darlithydd mewn Rheoli Cefn Gwlad, Dr Graham Harris, "unwaith eto, mae'r Clwb yn falch o fedru parhau i gefnogi'r myfyrwyr hyn yn eu gwaith - rhywbeth a ystyriwn yn rhan bwysig o'n rôl, yn ychwanegol at ein swyddogaeth gymdeithasol".

Blwyddyn ragorol i uwchraddedigion Gwyddorau Cymdeithasol IBERS

Cafodd ymchwil uwchraddedig y gwyddorau cymdeithasol yn IBERS flwyddyn doreithiog wrth i bedwar o fyfyrwyr raddio ym mis Gorffennaf eleni. Mae'r ystod eang o bynciau ymchwil ac ehangder daearyddol yr astudiaethau yn dangos cwrmpas ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yn IBERS. Llonyfarchiadau mawr i'r myfyrwyr canlynol, a dymunwn y gorau i chi yn eich gyrfaedd i'r dyfodol:

- Joseph Dzanja (PhD) *Defining and Measuring Social Capital: A case study of rural development in Malawi.*
- Christian Schader (PhD) *Cost-effectiveness of organic farming for achieving environmental policy targets in Switzerland.*
- Michelle Webber (PhD) *The economic and social value of our Earth heritage.*
- Ben Tantua (MPhil). Gwerthusiad o botensial ymdriniaethau cyfranogol i ddatblygiad gwledig yn economi olew Nigeria. Taith astudio Sir Amwythig. Dave Powell

Gwobrau

Llonyfarchiadau i Jasper Kenter, BSc Cadwraeth Cefn Gwlad, am ennill Gwobr Stapleton i fyfyrwr blwyddyn olaf gorau IBERS. Llonyfarchiadau hefyd i Dolly Schwenk BSc Rheoli Cefn Gwlad, hithau wedi ennill gwobr myfyriwr Cefn Gwlad BSc gorau'r flwyddyn. Mae'r ddwy wobwr hon yn gwbl haeddiannol. Da iawn chi.